OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2018 No. 1215

Rheoliadau Dosbarthu Carcasau a Hysbysu eu Prisiau (Cymru) 2018

RHAN 5

GORFODI A THROSEDDAU

Troseddau: darpariaethau moch Ewropeaidd

27.—(1) Mae unrhyw berson sydd—

(a) yn methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad o dan ddarpariaeth moch Ewropeaidd; neu

(b) yn torri unrhyw waharddiad a gynhwysir mewn darpariaeth moch Ewropeaidd,

yn euog o drosedd.

(2) Ond pan fydd gweithredwr neu'r person sy'n gyfrifol am ddosbarthu carcasau moch yn llunio cofnod gan gydymffurfio â'r amodau y cyfeirir atynt yn rheoliad 15 (cofnodion yn lle marcio) ni chyflawnir trosedd drwy fethu â chydymffurfio â darpariaeth moch Ewropeaidd Rhan 2 neu drwy ei thorri.

(3) Yn y rheoliad hwn, ystyr, "darpariaeth moch Ewropeaidd Rhan 2" yw darpariaeth a bennir yng ngholofn (2) o Ran 2 o Atodlen 2.